# Polisi Di-Fwg a Di-Fêp

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gyflogwyr i sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr, ac eraill a allai gael eu heffeithio gan weithgareddau'r Brifysgol.

1.2 Mae Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 yn manylu ar ymrwymiadau cyfreithiol y Brifysgol ar gyfer darparu adeiladau di-fwg.

**2.0 Nodau'r Polisi**

2.1 Nod Polisi Ysmygu'r Brifysgol yw:

- Diogelu staff, myfyrwyr ac ymwelwyr rhag effeithiau niweidiol ysmygu, yn cynnwys mwg ail-law;
- Sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i'r rheiny sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

**3.0 Trefniadau**

3.1 Mae'r Polisi yn berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr, ymwelwyr a chontractwyr.

3.2 Mae'r Polisi yn berthnasol i bob math o ddeunyddiau a nwyddau ysmygu, ond heb fod wedi'u cyfyngu i, sigarennau, sigarau, tybaco, e-sigarennau gan gynnwys y gwefrydd , anweddau ac unrhyw ddyfeisiau neu sylweddau eraill y gellir eu defnyddir ar gyfer ysmygu.

3.3 Gwaherddir ysmygu gan gynnwys fepio ym mhob un o adeiladau'r Brifysgol, ym mynedfeydd rhannol amgaeedig adeiladau a mynedfeydd allanol, wrth ffenestri ac mewn ardaloedd eraill lle gallai mwg ddod i mewn i'r adeilad. Mae hyn yn berthnasol hefyd i swyddfeydd unigol a strwythurau dros dro fel pebyll mawr.

3.4 Gwaherddir ysmygu gan gynnwys fepio yn holl lety'r Brifysgol a phob neuadd breswyl, yn cynnwys ystafelloedd gwely-astudio a'r holl ardaloedd cyffredin ac ystafelloedd cyhoeddus, yn cynnwys lolfeydd, ceginau ac ystafelloedd ymolchi.

3.5 Gwaherddir ysmygu gan gynnwys fepio mewn cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol, cerbydau sydd wedi'u prydlesu neu eu llogi iddi, ac mewn unrhyw achosion eraill wrth deithio gydag eraill ar waith sy'n ymwneud â'r Brifysgol.

3.6 Gwaherddir ysmygu gan gynnwys fepio mewn ardaloedd lle mae chwaraeon yn cael eu chwarae, mae hyn yn cynnwys y cae 3G, y trac rhedeg a chaeau chwarae'r brifysgol (Caeau Chwarae'r Ficerdy a Blaendolau).

3.7 Gall y Brifysgol ddynodi ardaloedd penodol at ddibenion ysmygu a fepio, gan annog pob ysmygwr i symud i ffwrdd o leiaf 10m o adeiladau i ysmygu ac i ddefnyddio'r biniau priodol i gael gwared ar fonyn y sigarennau a'r fêps tafladwy.

3.8 Mae'r polisi hwn yn darparu eithriad i'r gwaharddiad ysmygu ar gyfer cyfleusterau ymchwil a phrofi. Rhaid i unrhyw brosiect ymchwil neu arbrawf sy'n gofyn am ddefnyddio ystafell ysmygu, gael cymeradwyaeth gan y tîm IDaA drwy hasstaff@aber.ac.uk wrth gynllunio'r prosiect.

## 4.0 Sigarennau Electronig

4.1 Er eglurder ac er mwyn osgoi dryswch wrth ddehongli'r Polisi hwn, gwaherddir sigarennau electronig neu ddeunyddiau anweddu gan gynnwys gwefru'r eitemau hyn ym mhob ardal lle mae deunyddiau ysmygu traddodiadol neu gonfensiynol hefyd wedi'u gwahardd.

4.2 Mae fêps tafladwy sydd wedi cael eu defnyddio yn beryglus ac yn dod o dan y Rheoliadau WEEE. Ceir hyd i gynwysyddion gwastraff fêps tafladwy sydd wedi cael eu defnyddio yn (WEBLINK)

**5.0 Arwyddion**

5.1 Bydd arwyddion dim ysmygu yn cael eu dangos yn glir wrth fynedfeydd adeiladau di-fwg er mwyn i bobl eu gweld ar y ffordd i mewn. Gellir holi'r Adran Ystadau am arwyddion ychwanegol, drwy gysylltu â campushelp@aber.ac.uk.

5.2 Mae'n ofynnol i holl gerbydau fflyd y brifysgol arddangos 'Arwyddion Dim Ysmygu', mae'r rhain ar gael gan yr adran Teithio a Fflyd, drwy gysylltu â trlstaff@aber.ac.uk. Cyfrifoldeb defnyddiwr y cerbyd yw sicrhau bod arwyddion ar gael yn y cerbyd, gellir cael arwyddion newydd gan trlstaff@aber.ac.uk. Cyfrifoldeb y cwmni llogi cerbydau yw sicrhau bod arwyddion priodol yn cael eu harddangos mewn cerbydau sy'n cael eu llogi i'r Brifysgol.

**6.0 Cydymffurfio**

6.1 Gall unigolion sy'n dymuno codi unrhyw faterion neu bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o dramgwyddo'r Polisi hwn wneud hynny drwy gysylltu â swyddfa Diogelwch y Safle. Bydd staff Diogelwch y Safle hefyd yn patrolio Campws y Brifysgol yn rheolaidd er mwyn monitro cydymffurfio.

6.2 Os bydd staff a myfyrwyr yn parhau i fethu glynu at y Polisi hwn, gellir cychwyn gweithdrefnau disgyblu, yn unol â'r gweithdrefnau disgyblu priodol.

6.3 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth, sef Cyngor Sir Ceredigion yn achos y Brifysgol. Bydd unigolion sy'n methu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn cyflawni trosedd ac o bosibl yn derbyn dirwy cosb benodedig ac erlyniad troseddol.

**7.0 Help i Roi'r Gorau i Ysmygu**

7.1 Mae'r Brifysgol yn annog unigolion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu. Mae'r isod ymhlith y ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- Rhaglen Cymorth i Staff y Brifysgol: https://www.aber.ac.uk/cy/hr/employmentinformation/eap/;
- GIG Di-Fwg: https://www.nhs.uk/smokefree ;